Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **12 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, a darparu gwybodaeth am deithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd meysydd awyr Sofran Akrotiri a Dhekelia ar ynys Cyprus a Groeg, ac eithrio ynysoedd Rhodes, Kos, Corfu, Creta a Zakynthos (Zante) yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly bydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hynny hunanynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Rwyf hefyd wedi penderfynu y dylid ychwanegu'r gwledydd a thiriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio; Bahrain, Cambodia, Chile, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar, Turks a Caicos, a'r Emiraethau Arabaidd Unedig, felly ni fydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hyn hunanynysu bellach pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Gwneir diwygiad pellach i nodi na fydd awyrennau teithwyr a llongau sy’n teithio’n uniongyrchol o Ddenmarc, a’r llwythi y maent yn eu cludo, bellach yn gallu glanio na docio mewn porthladdoedd yng Nghymru.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 14 Tachwedd.